



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Dyffryn Aman
Margaret Street
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2NW**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Aman

Ysgol ddwyieithog a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Dyffryn Aman. Mae 1,436 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 267 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigyrau hyn ychydig yn is nag oedden nhw adeg yr arolygiad craidd diwethaf, ym mis Hydref 2012, lle roedd 1,577 disgybl ar y gofrestr.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhydaman wrth droed y Mynydd Du. Daw tua hanner y disgyblion o'r dref ei hun, a daw'r hanner arall o'r ardal wledig a'r pentrefi cyfagos. Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yw 18.9%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru, sef 16.4%.

Daw bron traean o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 47% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae ychydig dros hanner yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Mae gan bron 6% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.2% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan bron 30% o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae gan yr ysgol gyfleuster addysgu arbenigol i 29 o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys a chymhleth.

Penodwyd y pennaeth ac un dirprwy bennaeth ym Medi 2017. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol, dau uwch athro a'r cydlynnydd anghenion dysgu arbennig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae gan Ysgol Dyffryn Aman naws hynod gartrefol a chynhwysol Gymreig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith. Nodwedd arbennig yw eu parodrwydd i ddyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau. Yn gyffredinol, maent yn ddisgyblion cwrtais a chyfeillgar sydd yn cydweithio â'i gilydd yn arbennig o dda.

Mae gan y disgyblion ystod eang o bynciau i ddewis ohonynt ym Mlwyddyn 10 ac yn y chweched dosbarth a cheir llw o weithgareddau buddiol allgyrsiol. O ganlyniad i addysgu deinamig a brwdfrydig, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol. Fodd bynnag, nid yw medrau ieithyddol lleiafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg gystal â'u medrau yn Saesneg.

Mae'r uwch dîm arwain yn gosod disgwyliadau uchel i'r staff a'r disgyblion. Maent yn rhannu gweledigaeth glir o sicrhau lefelau lles o'r graddau uchaf a gwella medrau'r disgyblion yn y Gymraeg. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol ac yn barod i dreialu a gwerthuso trefniadau cwricwlaidd arbrofol.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion
- A2 Cynyddu'r gyfran o gyrsiau sydd ar gael yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth
- A3 Cynllunio i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd yn eu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- A4 Dileu'r diffyg cyllidol drwy weithio â'r awdurdod lleol a mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â lles a gwella gwytnwch disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buan yn eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn gywir ac yn ei gymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn fedrus. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o gysyniadau pynciol sylfaenol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafar Saesneg hyfedr. Maent yn gwrando ar ei gilydd yn astud ac yn trafod themâu cymhleth â brwdfrydedd. Er enghraifft, yn eu gwersi addysg grefyddol, maent yn ystyried os yw bod yn grefyddol yn angenrheidiol i fod yn berson 'da'. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion eirfa gyffredinol eang ac mae llawer ohonynt yn defnyddio termau pwnc penodol yn gywir. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg y disgyblion sy'n derbyn llawer o'u haddysg yn yr iaith wedi'u datblygu i'r un graddau â'u medrau llafar Saesneg. Mae lleiafrif o'r disgyblion hyn yn rhy barod i droi at Saesneg wrth drafod yn eu gwersi. Maent yn gyndyn i drafod syniadau yn rhannol oherwydd nid oes ganddynt eirfa ddigon eang i fynegi eu hunain yn hyderus yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus, yn enwedig yn Saesneg. Maent yn darllen ar goedd yn rhugl â mynegiant perthnasol. Medrant gywain gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau, er enghraifft wrth ddarllen am arbrofion Luigi Galvani ar effaith trydan ar gyhyrau broga marw yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn arddangos y medrau i ddadansoddi testunau cymhleth yn ddwfn a chanfod ystyron ymhlyg ynddynt. Fodd bynnag, wrth ddarllen ar goedd yn y Gymraeg, mae lleiafrif o'r disgyblion yn ansicr a dihyder.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn yr iaith Saesneg am ystod o destunau ac i wahanol gynulleidfaoedd â chywirdeb technegol priodol. Maent yn trefnu'u gwaith yn rhesymegol ac yn cyfathrebu eu syniadau'n glir wrth drafod materion cymhleth. Er enghraifft, yn eu gwersi dylunio a thechnoleg, maent yn ystyried yn aeddfed effaith datgoedwigo yn y fforest law yn sgil chwant bodau dynol am bren mahogani. Mae ychydig o ddisgyblion yn arddangos dawn arbennig wrth ysgrifennu, er enghraifft wrth ddisgrifio esgyniad Mont Blanc: 'Timothy stared at the dark void beneath him, struggling to hold on to the cracked, sharp rocks. All that stopped him from falling was his grip, no harness or companion'. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw medrau ysgrifennu lleiafrif o'r disgyblion wedi'u datblygu i'r un graddau yn y Gymraeg. Nid ydynt yn defnyddio cystrawennau priodol Cymraeg ac mae eu cywirdeb ieithyddol yn wallus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu fedrau rhif cadarn. Maent yn hyderus wrth drafod rhifau cyfan, lluosï a rhannu a defnyddio degolion a ffracsiynau. Gall llawer o ddisgyblion lunio graffiau gwasgar cywir a gosod llinellau ffit gorau synhwyrol arnynt i amlygu patrymau yn y data. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn eu gwersi peirianeg, maent yn defnyddio'u dealltwriaeth o gyfrannau'n fedrus i farcio lleoliad tyllau, wedi'u gwahanu'n gyfartal, ar jig drilio.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni TGCh yn briodol, er enghraifft wrth ddylunio gwrthrychau tri-dimensiwn yn eu gwersi dylunio a thechnoleg a symud crwbau rhithwir o amgylch grid yn eu gwersi mathemateg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn fuddiol. Mae esiamplau'n cynnwys arbrofi â thrawsacennu wrth gyfansoddi caneuon yn yr arddull reggae yn eu gwersi cerddoriaeth ac arbrofi ag ystod o arddulliau artistig yn eu gwersi celf wrth greu dyluniadau o ddrysau gwreiddiol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â'r hyn mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion ychydig yn is na'r hyn a ddisgwylir gan ystyried eu perfformiad blaenorol. Mae perfformiad y disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad y grŵp hwn mewn ysgolion tebyg.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae lles ac agweddau at ddysgu disgyblion yn nodwedd hynod gref o Ysgol Dyffryn Aman. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt ac yn ffynnu o fewn cymuned sydd ag ysbryd teuluol arbennig yn perthyn iddi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais iawn ac yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn canolbwyntio'n ddyfal mewn gwersi ac yn arddangos dycnwch pan fyddant yn gweithio ar dasgau heriol. Maent yn gweithio'n effeithiol iawn mewn parau a grwpiau er mwyn cefnogi ei gilydd i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae'r cyngor ysgol yn gorff brwdfrydig iawn sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ystod eang o agweddau o fywyd ysgol, er enghraifft trwy wella amgylchfyd yr ysgol trwy gyflwyno ffynhonnau dŵr er mwyn lleihau'r defnydd o blastig. Mae hefyd wedi sefydlu'r grŵp rhagweithiol lesbiaid, hoywon, deurywiol a thrawsrywiol sydd yn cyfrannu'n fuddiol at feithrin ymagweddau cadarnhaol at amrywiaeth.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol dwys yn datblygu'u medrau bywyd yn ardderchog o fewn Canolfan Amanwy, er enghraifft wrth gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros deithio'n annibynnol i'r coleg lleol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn cael cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddatblygu eu medrau arweinyddol trwy gymryd rhan mewn nifer o is-bwyllgorau'r cyngor ysgol fel y 'Grŵp Eco' a'r 'Grŵp Cymreictod'. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn datblygu eu medrau arwain yn fuddiol mewn amryfal ffyrdd, er enghraifft drwy drefnu gŵyl 'Amanwyl' i hybu ymwybyddiaeth a mwynhad o ddiwylliant Cymru. Maent hefyd yn gweithredu'n effeithiol fel 'bydis' i ddisgyblion bregus ac yn cyfrannu'n fuddiol at gefnogi lles disgyblion yn narpariaeth y "Cwtsh".

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol apelgar iawn sydd yn cynnwys clybiau Lladin, gymnasteg a chelf. Mae grwpiau o ddisgyblion wedi arddangos blaengaredd trwy sefydlu a rhedeg clybiau eu hunain, er enghraifft y 'Clwb siarad Pwyleg' a'r 'Clwb Clecs' lle ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r gymuned trwy godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol fel Banc Bwyd Rhydaman, 'Sport Relief' ac 'Achub y Plant'.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn eithriadol trwy ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r 'Llysgenhadon Caredigrwydd' sy'n trefnu gweithgareddau i hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion dyngarol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ffyddiog y gallant dderbyn cymorth pan fyddant yn wynebu problemau. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod staff yn ymateb yn dda i'r achosion prin o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dilyn bywyd iachus ac yn deall sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas weithio hynod agos a chynhaliol â'u disgyblion. Mae bron pob un yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac mae llawer yn cynnal eu gwersi mewn modd deinamig ac â brwdfrydedd heintus.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus iawn i ddal dychymyg y disgyblion a sicrhau cynnydd cyson yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynnig her priodol o uchel i'r disgyblion ac yn paratoi adnoddau dysgu atyniadol a diddorol. Mae'r athrawon hyn yn cynnig esboniadau clir a defnyddiol i'r disgyblion. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu'u medrau a'u dealltwriaeth bynciol yn annibynnol. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn sensitif. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn addasu eu haddysgu'n fedrus i sicrhau bod disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud cynnydd.

Mewn ychydig o achosion ceir addysgu ysbrydoledig sy'n arwain at gynnydd eithriadol. Yn yr achosion hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion ac maent yn arddangos angerdd am eu pwnc. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol ddwfn i gynllunio'u gwersi'n ofalus iawn a sicrhau cynnydd buan iawn ym medrau a gwybodaeth bynciol y disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. Nid yw cynllunio'r athrawon yn y gwersi hyn yn sicrhau cynnydd priodol ym medrau'r disgyblion. Yn aml, mae hyn oherwydd cynllunio diffygiol sy'n cynnig gweithgareddau â her annigonol, er enghraifft copïo gwybodaeth o'r bwrdd. Mae'r gwersi hyn yn symud ar gyflymdra isel iawn. Nid ydynt yn llwyddo i ddal dychymyg disgyblion nac i wella'u medrau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion nac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau'n grefftus. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn datblygu ymatebion y disgyblion drwy eu herio i feddwl yn ddyfnach a chryfhau eu dealltwriaeth. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cylchu'r dosbarth i sicrhau bod disgyblion yn deall y cysyniadau o dan sylw a chywiro camsyniadau'n sensitif. Mewn llawer o lyfrau, mae athrawon yn cynnig adborth defnyddiol ar waith disgyblion a thasgau dilynol i roi cyfle iddynt wella medr penodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw adborth yr athrawon yn ddigon penodol i sicrhau bod y disgyblion yn gwybod sut i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ceir ystod eang o gymwysterau academaidd a galwedigaethol. Trwy weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys coleg addysg bellach, mae'r ysgol yn llwyddo i ehangu'r dewis sydd ar gael i ddisgyblion a sicrhau dilyniant mewn pynciau fel peirianeg ac adeiladwaith. Mae'r ysgol yn addasu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyrsiau i ehangu ar brofiadau dysgu'r disgyblion mwy galluog ac i gefnogi cynnydd disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig. Ceir, er enghraifft, gyrsiau Lladin, daeareg a seryddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o wersi chwaraeon yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu o gyfnodau allweddol blaenorol. Mae lleiafrif o bynciau wedi datblygu prosiectau defnyddiol ar y cyd ag ysgolion cynradd partner i gefnogi trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae arweinwyr yn arfarnu ac adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd ac yn ei addasu'n briodol i ddiwallu dymuniadau'r disgyblion a blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn arbrofi â dull newydd o addysgu ym Mlwyddyn 7 trwy gynllun dysgu trwy brosiect. Er ei fod yn ddyddiau cynnar, mae disgyblion wedi elwa o brofiadau gwerthfawr fel ymweliad i gartref i'r henoed i ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng cenedlaethau.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymweliadau â chlwb criced Morgannwg a Gŵyl y Gelli yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd darllen. Mae disgyblion mwy abl yn elwa o weithgareddau gwerthfawr fel prosiect celf ar gyfer 'Taclor Tacle' (Crimestoppers) a chyfrannu at gloddfa archeolegol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymreig, er enghraifft wrth astudio tirwedd Cymru yn eu gwersi daearyddiaeth, gwerthfawrogi gwaith arlunwyr o Gymru a gweithio gyda chyfansoddwraig o Gymru. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn darparu amrediad addas o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yn nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r gyfran o gyrsiau sydd yn cael eu cynnig trwy'r Gymraeg yn gymharol isel.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes cynllunio digon manwl ar gyfer cynnydd ym medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn fedrus gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael o brofion ac asesiadau. Mae'n darparu ymyraethau effeithiol sy'n gwella medrau'r disgyblion hyn ac mae prosesau i olrhain eu cynnydd yn drwyadl.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus wrth ennill cymhwyster priodol mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Dyffryn Aman yn gymuned deuluol a gofalgar sydd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae'r egwyddor 'barod i ddysgu, datblygu a llwyddo' yn sail gref i'w gwaith. O ganlyniad, ceir ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn er mwyn olrhain, monitro a hyrwyddo cynnydd academaidd a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys polisi ymddygiad cadarnhaol a system wobrwyo effeithiol. Ceir amrywiaeth eang o strategaethau gwerthfawr fel y 'Grŵp Maethu' ym Mlwyddyn 7 sydd yn helpu disgyblion bregus i setlo'n fuan a 'Llyfryn Cyngor Lles' sydd yn cynnwys cyngor gwerthfawr a chyfeiriadau at 'apiau' defnyddiol.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn olrhain ac yn adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau perthnasol ac uchelgeisiol yn ofalus iawn. Mae'r staff cymorth yn darparu ystod eang o ymyraethau buddiol i ddiwallu eu hanghenion dysgu a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth yng 'Nghanolfan Amanwy' yn cynnig cefnogaeth ardderchog i ddisgyblion ag anghenion dwys iawn i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd, yn ogystal â'u galluogi i wneud cynnydd academaidd sylweddol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fonitro presenoldeb. Mae arweinwyr yn defnyddio strategaethau gwella presenoldeb pwrpasol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni o ran cynnydd eu plant. Mae adroddiadau interim a llawn yn cynnwys sylwadau buddiol a thargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau personol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol niferus, er enghraifft clwb gwyddbwyll ac amrywiol glybiau chwaraeon a cherddoriaeth. Mae trefniadau cadarn ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cael gwersi chwaraeon yn ddigon aml.

Mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion o bob cefndir a gallu, gan gynnwys disgyblion Canolfan Amanwy, yn cael eu cynnwys yn llawn yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i drafod eu gwaith â rheolwyr a chyfoedion, a gweithgareddau cyffrous fel sioeau ac eisteddfodau. Ceir amryfal gyfleoedd ysgogol i ddisgyblion mwy abl ehangu eu gorwelion, fel gweithdy 'Develop a Doctor' lle maent yn dyrannu mochyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau cryf er mwyn hybu datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol fuddiol a pherthnasol yn sgîl ymgynghori helaeth â disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau allanol sydd yn cyfoethogi'r gefnogaeth ymhellach. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r gwasanaeth cwnsela disgyblion i gynllunio cefnogaeth iddynt.

Mae disgyblion yn elwa ar gyngor ac arweiniad buddiol iawn wrth drosglwyddo o un cyfnod i'r llall. Er enghraifft, caiff pob disgybl ym Mlwyddyn 9 gyngor un i un gan uwch athro ar eu dewisiadau pynciol.

Mae'r ysgol wedi darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at y polisi ymddygiad. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn deall disgwyliadau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithredu'r polisi ymddygiad yn gyson effeithiol. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw'r polisi'n cael ei weithredu'n ddigon effeithiol a cheir mân darfu.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar bolisiau a gweithdrefnau trwy gynghorau'r ysgol. Maent wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i welliannau fel lleihau gwastraff a newidiadau i'r wisg ysgol.

Yn gyffredinol, mae trefniadau diogelu'r ysgol yn briodol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r ysgol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Ers ei phenodi yn 2017, mae'r pennaeth wedi rhannu ei gweledigaeth glir ac uchelgeisiol yn llwyddiannus â holl gymuned yr ysgol. Seilir y weledigaeth hon ar gynnig profiadau addysgol o'r safon uchaf i ddisgyblion tra'n cynnal lles staff a disgyblion mewn cymuned deuluol. Mae hi'n arweinydd egniol a doeth sy'n uchel ei pharch ymhlith y staff, y disgyblion a'r gymuned. Mae gweddill yr uwch dîm arwain yn cynnig cefnogaeth gref iddi wrth ymateb i weithredu blaenoriaeth y llywodraeth i hyrwyddo'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Gweithiant yn ddifflino i sicrhau cyfle cyfartal a phrofiadau ysgogol i ddisgyblion y dalgylch.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhannu'r weledigaeth o wireddu arwyddair yr ysgol, sef 'parched pob byw ei orchwyl' gyda holl randdeiliaid yr ysgol yn llwyddianus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r staff yn coleddu'r gwerthoedd o sicrhau bod pob disgybl yn ymdrechu'n ddyfal i gyrraedd ei lawn botensial. Mae arweinyddiaeth gref wedi cyfrannu at sicrhau safonau uchel, addysgu effeithiol ac agweddau cadarnhaol iawn y disgyblion tuag at ddysgu.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn cydweithio'n agos iawn ac yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol yn amlwg yn eu gwaith bob dydd. Mae dyletswyddau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n addas i gyflawni nodau ac amcanion strategol yr ysgol. Ehangir ar aelodaeth yr uwch dîm arwain drwy gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff ymuno dros dro i arwain ar brosiectau traws ysgol, fel cryfhau ymrwymiad rhieni a mentora cyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu at greu tîm arwain llwyddiannus yn ogystal â chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae gan lawer o reolwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rôl ac maent yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn chwarae rhan allweddol mewn gwireddu prif flaenoriaethau'r ysgol, sef codi safonau, gwella lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. Serch hynny, nid yw ychydig iawn o arweinwyr canol yn gwneud defnydd

digon effeithiol o'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt i gynllunio ar gyfer gwelliant. Nid ydynt yn defnyddio canfyddiadau prosesau monitro ac arfarnu i wella ansawdd yr addysgu o fewn eu hadrannau. Mae arweinwyr bugeiliol yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth fuddiol a pherthnasol.

Mae rhaglen fuddiol o gyfarfodydd llinell, adrannol a staff sy'n rhoi sylw dyledus a chyson i addysgu, safonau, a lles disgyblion. O ganlyniad, mae atebolrwydd clir ar bob lefel. Yn ogystal, ceir prosesau rheoli perfformiad trylwyr

Mae'r corff llywodraethol yn brofiadol a theyrngar ac yn gwarchod buddiannau'r ysgol yn ofalus. Mae ganddynt ddealltwriaeth lawn o rôl yr ysgol i gynnig darpariaeth ddwyieithog i'w chymuned. Meddant ar wybodaeth gynhwysfawr am ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella ac mae ganddynt ddealltwriaeth sicr ynghylch data perfformiad. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r uwch dîm arwain ar faterion strategol. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac maent yn defnyddio eu harbenigeddau i weithredu fel cyfaill beirniadol i arweinwyr canol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu a chryfhau ei phrosesau arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae cylch gwerthfawr o weithgareddau arfarnu a phrosesau sicrhau ansawdd defnyddiol. Maent yn cynnwys dadansoddiadau trylwyr o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio eu barn. Elfen nodedig yw bod y rhan fwyaf o'r arweinwyr canol yn arfarnu eu perfformiad yn drylwyr a manwl. Mae hyn yn rhoi darlun gonest a chlr i holl arweinwyr yr ysgol o ran fwyaf o gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cynllunio'n synhwyrol i wella perfformiad yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn ohonynt yn cynllunio'n ddigon manwl i wella ansawdd yr addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn rhoi ffocws cryf ar ganfod barnau'r disgyblion a'r rhieni. Mae arweinwyr wedi cynnal sawl grŵp ffocws â rhieni i ganfod eu barn ynghylch polisïau'r ysgol. Ar sail holi barn disgyblion, mae llawer o adrannau wedi addasu eu darpariaeth i ymateb yn gadarnhaol i'w sylwadau. Er enghraifft, mae bechgyn a merched bellach yn cael eu dysgu ar y cyd yng nghyfnod allweddol 3 mewn rhai gwersi addysg gorfforol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu. Yn ogystal, mae'r adrannau Saesneg a mathemateg wedi datblygu'u defnydd o TGCh i ehangu profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol yn yr ysgol. Mae rhaglen barhaus werthfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau ysgol gyfan ac amcanion rheoli perfformiad staff. Mae'r drefn o rannu arfer dda ymhlith staff yn elfen gref. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o arbenigeddau staff unigol i ddarparu gweithdai sy'n ffocysu ar agweddau penodol, fel technegau addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi darparu cyfleoedd defnyddiol i staff fyfyrion ar eu harfer trwy'r 'Grwpiau Ymchwil Gweithredol' sy'n edrych ar elfennau gwahanol o ddarpariaeth ac yn cyd-gynllunio gwelliannau. Mae'r grwpiau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd, fel datblygu'r defnydd o raglenni digidol i gefnogi'r dysgu.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn briodol. Mae ganddynt strategaeth gyllido bwrpasol lle mae cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi

cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn caniatáu dilyniant ieithyddol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol ddyled ariannol gyfredol sydd wedi ei thrwyddedu gan yr awdurdod lleol. Mae cynlluniau synhwyrol i glirio'r ddyled o fewn tair blynedd. Er y wasgfa ariannol, mae'r ysgol wedi llwyddo i gynnal safonau uchel yn y rhan fwyaf o agweddau o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol, fel trefnu trafndiaeth i ddisgyblion a mynychu gweithgareddau wedi oriau ysgol. Gwneir defnydd pwrpasol o'r amgylchedd dysgu er mwyn cynnig profiadau dysgu cofiadwy i'r disgyblion.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2020